# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU AMGYLCHEDD, ADFYWIO A CYMDOGAETH

## (CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Gwener, 14 Ebrill 2023**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd S.Pursey** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Cynghorwyr**: | W.Carpenter, R.Davies, N.Goldup-John, C.James, S.Grimshaw, S.M.Penry, L.Williams, S.E.Freeguard, J.Henton, J.Jones, S.Renkes, S.H.Reynolds a/ac D.Thomas |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | D.Griffiths, C.John, C.Plowman, J.Stevens, S.Brennan, R.Crowhurst, G.Hughes, C.Roberts, Ms.J.Smith, R.Turner a/ac T.Rees |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr S.Jones, W.F.Griffiths, M.Peters |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a gwahoddedigion y Pwyllgor Craffu Addysg.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Y Cyng. Scott Jones - Eitem 18- Personol, heb fod yn rhagfarnol- Penodwyd y Cyng. S. Jones i fwrdd Wild Fox.

   Y Cyng. Martyn Peters- Eitem 18- Personol, heb fod yn rhagfarnol- Penodwyd y Cyng. M. Peters fwrdd Wild Fox.

   Y Cyng. Jeff Jones- Eitem 18 - personol, heb fod yn rhagfarnol - Penodwyd y Cyng. J. Jones i fwrdd Wild Fox.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Mawrth 2023 fel cofnod cywir.

4. **YMATEB BWRDD Y CABINET AR Y GRWP TASG A GORFFEN STRATEGAETH WASTRAFF**

Rhoddodd y Cadeirydd gefndir i Grŵp Tasg a Gorffen y Strategaeth Gwastraff a'i adroddiad dilynol. Eglurodd y Cadeirydd fod y llythyr yn cynnwys ymateb gan Fwrdd y Cabinet i argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen.

Cytunodd yr Aelodau i graffu ar yr eitem fel rhan o Adroddiad y Strategaeth Gwastraff gan fod y llythyr wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwnnw.

Nodwyd y llythyr.

5. **ADRODDIAD SIARTER TEITHIO IACH**

Derbyniodd yr aelodau wybodaeth am adroddiad y siarter teithio iach fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd. Hysbysodd y swyddogion yr aelodau ynghylch camgymeriad ar dudalen 30 o'r adroddiad. Dywedodd swyddogion eu bod wedi symud i orsaf drosglwyddo yn hytrach na chyfleuster y Ganolfan Adfer Deunyddiau ac Ynni (MREC); nid yw hyn yn effeithio ar y sgôr gyffredinol a roddir i'r eitem a bydd yn cael ei newid.

Roedd yr aelodau am wybod am y cynnydd mewn diogelwch beicwyr sy'n teithio i'r ysgol ac i'r gwaith. Esboniodd swyddogion eu bod yn datblygu cynlluniau ac yn gwneud cais am grantiau mewn perthynas â'r Cynllun Teithio Llesol a'r gobaith yw y bydd penodi dau swyddog teithio llesol yn arwain at fwy o lwyddiant wrth sicrhau grantiau ar gyfer llwybrau teithio llesol.

Roedd swyddogion hefyd yn teimlo y bydd y terfyn cyflymder newydd o 20mya yn helpu i leihau difrifoldeb digwyddiadau oherwydd cyflymder arafach.

Darparodd swyddogion wybodaeth am yr agwedd addysg a hyfforddiant ar ddiogelwch teithio, megis Kerbcraft mewn ysgolion cynradd yn ogystal â rhaglen ysgolion gyfun sy'n cynnwys teithio'n annibynnol, gan gynnwys defnyddio bysiau. Mae blynyddoedd 5 a 6

hefyd yn derbyn hyfforddiant beicio ar y ffyrdd ac mae hyfforddiant lefel 3 yn cael ei ddatblygu mewn ysgolion cyfun. Eglurodd swyddogion hefyd y gall teuluoedd (gan gynnwys oedolion) hefyd gael hyfforddiant yn ystod diwrnodau hyfforddi teuluol sy'n helpu i gynllunio llwybrau a mynd ar feiciau trydan.

Mynegodd yr aelodau eu pryder ynghylch defnyddwyr eraill y ffyrdd mewn perthynas â diogelwch beicwyr a'r gobaith o gael llwybrau beicio mwy diogel. Dywedodd yr Aelodau fod y swyddogion newydd yn y tîm yn ychwanegiad braf i helpu i sicrhau arian grant, ond roedd aelodau'n teimlo bod angen iddynt barhau i feddwl am symud ymlaen o ddulliau sy'n canolbwyntio ar geir mewn perthynas â mathau cynaliadwy o drafnidiaeth mewn prosiectau er mwyn ystyried cerdded a beicio.

Esboniodd swyddogion fod mentrau gyrwyr ar gyfer gyrwyr sydd newydd gymhwyso a gyrwyr hŷn a hyfforddiant sy'n cynnwys beicwyr modur ac sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o holl ddefnyddwyr y ffordd.

Holodd yr aelodau am gysylltu llwybrau beicio. Nododd yr aelodau fod y ffordd rhwng Pont-rhyd-y-fen a Chimla'n beryglus i feicwyr ac roeddent yn meddwl tybed a oedd cynlluniau i drwsio'r ffordd rhwng T-bones a Phont-rhyd-y-fen.

Eglurodd swyddogion fod cynllun ar gyfer llwybr teithio llesol o Gastell-nedd hyd at gae chwaraeon Cefn Saeson, sy'n ddarn mawr o waith, ac mae'n debyg y bydd yn cael ei gyflwyno'n raddol dros ychydig flynyddoedd. Dywedodd swyddogion y gallai mynd oddi ar y prif lwybr hwnnw fod yn anodd gan fod cyrraedd T-bones yn cael ei ystyried fel gweithgaredd hamdden ac nid yw'n unol â theithio llesol ac felly nid ydynt yn gymwys i gael grantiau teithio llesol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 6. <u>CRAFFU CYN PENDERFYNU</u>

Eitem 13 Cynllun gweithredu'r Strategaeth Gwastraff

Derbyniodd yr Aelodau wybodaeth am Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Gwastraff fel y'i cyflwynwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cododd yr aelodau eu pryderon ynghylch storio'r bagiau porffor yn ystod misoedd yr haf, yn enwedig os bydd casgliadau gwastraff yn

newid i gasgliadau bob 3 wythnos. Roedd yr aelodau'n poeni sut y byddai preswylwyr yn gallu storio'r bagiau hyn.

Dywedodd swyddogion y byddai'n rhyddhau rhywfaint o adnoddau pe byddai casgliadau'n digwydd bob 3 wythnos, a gellid dargyfeirio'r adnoddau hynny i gasgliadau ailgylchu a chewynnau, a fyddai'n golygu bod casgliadau cewynnau'n digwydd yn wythnosol, a fyddai'n datrys problemau. Ystyrir hyn fel rhan o'r broses ymgynghori.

Dywedodd swyddogion fod elfen storio argymhellion y pwyllgor craffu'n cael ei derbyn gan swyddogion. Fodd bynnag, byddai'r bagiau porffor yn cael eu cyflwyno i'w casglu a byddai'r blwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer storio'r bagiau hynny'n unig.
Amlygodd yr Aelodau fod y grŵp Tasg a Gorffen wedi cyflwyno'r syniad o fin cyflwyno ar ôl cael sicrwydd gan swyddogion ar ei ymarferoldeb.

Roedd yr aelodau'n teimlo ei fod yn fwy hylan ac osgoi dryswch o gael cynhwysydd na ellir ei gyflwyno i'w gasglu. Roedd yr aelodau am ddeall beth oedd wedi newid ers y drafodaeth honno.

Dywedodd swyddogion eu bod yn dal i fod yn y cyfnod treialu ond eglurodd fod y peilot yn cefnogi'r farn bod pobl eisiau biniau storio yn hytrach na biniau cyflwyno. Dywedodd swyddogion fod cyfle i'w adolygu o hyd, ond ni ellir ymestyn y gwasanaeth ar hyn o bryd oherwydd adnoddau a chyllid, ond gall pethau newid a gwella dros y ddwy flynedd nesaf. Yr argymhelliad gan swyddogion yw defnyddio blychau storio yn hytrach na'u defnyddio fel blychau cyflwyno.

Roedd yr Aelodau'n awyddus i fonitro'r sefyllfa yn ystod y cyfnod peilot a chael adborth gan swyddogion o ran sut mae'r biniau storio'n gweithio, ond hefyd i dreialu a phrofi effaith defnyddio'r cynhwysydd fel bin cyflwyno ar ôl diweddaru'r cynllun a glendid y strydoedd.

Dywedodd swyddogion fod y rhan fwyaf o'r adborth a roddwyd ynghylch yr ymgynghoriad a wnaethant yn ymwneud â storio, ond pe bai problemau gyda chyflwyno, byddai hynny'n dod yn amlwg i aelodau. Bydd biniau storio ar gael i'r rhai sy'n gofyn amdanynt.

Teimlai'r Aelodau y dylid gohirio'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ar gasglu biniau bob 3 wythnos cyn belled ag y bo modd er mwyn gallu cyfleu'r neges yn gyntaf am yr angen am ailgylchu gwell ac ailgylchu bwyd. Roedd yr aelodau am gael rhywfaint o fanylion ynghylch pam y

gwrthodwyd y cynnig hwnnw gan y Grŵp Tasg a Gorffen ac roeddent am gael syniad o ran amserlenni ar gyfer yr ymgynghoriad.

Dywedodd swyddogion fod dyddiad terfyn statudol ar gyfer mynd y tu hwnt i'r targed o 70% ar wastraff bwyd ac mae hyn yn golygu y byddai angen iddynt wneud llawer o waith paratoi a chynllunio pe bai'r casgliadau bob 3 wythnos yn mynd yn eu blaen. O ran yr amserlenni, byddai angen iddynt wneud rhywfaint o ymgynghori mewnol yn gyntaf. Mae'n debygol y byddai ymgynghori â'r cyhoedd yn dechrau o fewn y 12 mis nesaf.

Ystyriodd swyddogion bwynt aelodau'r bwrdd eu bod yn gobeithio y gwnaed ymgynghoriad y preswylwyr ar ôl rhoi'r negeseuon ailgylchu a gwastraff bwyd.

Roedd yr aelodau am gael eglurder ynghylch beth fyddai'n cael ei wneud ar gyfer ardaloedd lle nad oes siopau nac adeiladau cyhoeddus lle gellir casglu bagiau baw cŵn. Dywedodd swyddogion eu bod yn gweld peiriannau dosbarthu fel dewis olaf oherwydd eu bod yn aml yn cael eu fandaleiddio neu eu cam-drin. Eglurodd eu bod am roi cynnig ar bopeth o fewn eu gallu i ddarparu ar gyfer yr ardaloedd hynny. Dywedodd swyddogion y dylent fod mewn lleoliadau sy'n ddiogel ac yn llai tebygol o gael eu fandaleiddio ond eu bod am edrych ar bob opsiwn arall. Bydd swyddogion yn siarad â'r holl aelodau ynghylch darpariaeth yn eu wardiau.

Roedd yr aelodau am edrych ar fannau cyffwrdd cwsmeriaid a chael adborth rheolaidd gan drigolion ar sut mae'r gwasanaeth wedi bod. Roeddent yn teimlo y byddai darn ehangach o waith yn ddefnyddiol ac yn ddyfnach na'r panel dinasyddion i helpu perfformiad a darparu gwasanaethau. Dywedodd swyddogion y byddant yn siarad â'r gwasanaethau digidol am ddefnyddio'r system i greu cwestiynau ynghylch y gwasanaeth.

Yn dilyn trafodaethau'r aelodau, cyflwynwyd y diwygiadau canlynol gan y Pwyllgor Craffu i Aelodau’r Cabinet ei ystyried wrth wneud eu penderfyniad:

- Cymeradwyo mesur 5 gan ystyried defnyddio'r biniau storio deunydd ar gyfer cyflwyno fel yr awgrymir gan y pwyllgor craffu.
- Cymeradwyo mesur 11 heb ohirio ymgynghoriadau ar newidiad posib i gasglu sbwriel bob 3 wythnos, er gwaethaf yr awgrym gan Graffu i'r gwrthwyneb, fodd bynnag, cynhelir yr ymgynghoriad fel ymagwedd fesul cam.

• Datblygu protocol Cyfathrebu i sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol mewn perthynas â chael adborth ar wasanaethau gwastraff drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud drwy banel y dinasyddion sefydledig ac yn ystod cysylltiadau â chwsmeriaid gyda'r gwasanaeth.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd y diwygiadau uchod gan Fwrdd y Cabinet.

## 7. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL A CHOFNOD GWEITHREDU'R PWYLLGOR

Nododd aelodau'r pwyllgor y Blaenraglen Waith a'r cofnod gweithredu.

## 8. EITEMAU BRYS

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

## 9. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Gwahardd y cyhoedd yn unol ag Adran 100A (4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn debygol o gynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a ddiffinnir ym Mharagraff 14 ac Adran 4 o Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

## 10. CLYMOG JAPAN

10. Canclwm Japan

Derbyniodd yr Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf am bolisi a gweithdrefnau'r cyngor mewn perthynas â chanclwm Japan fel y manylir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

## 11. CRAFFU EITEM/EITEMAU PREIFAT CYN PENDERFYNU

19. Ystafelloedd dosbarth modiwlaidd yn Ysgol Hendrefelin (safle Bryncoch) ac ysgolion cynradd Blaenhonddan a Chrymlyn

Cafodd yr aelodau wybodaeth am yr ystafelloedd dosbarth modiwlaidd yn Ysgol Hendrefelin (safle Bryncoch) ac ysgolion cynradd Blaenhonddan a Chrymlyn fel y manylir yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

Yn dilyn craffu, cefnogwyd yr argymhelliad gan Fwrdd y Cabinet.
TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**